# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**2016 dccc 3**

## RHAN 4

CASGLU A GWAREDU GWASTRAFF

*Gorfodi*

### 68 Sancsiynau sifil

(1) At ddibenion Rhan 3 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 (p. 13) ("RESA 2008"), mae'r tramgwyddau o dan adrannau 34D a 45AA o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (fel y'u mewnosodir gan adrannau 65 a 66) i'w trin fel pe baent wedi eu cynnwys yn y Ddeddf honno yn union cyn y diwrnod y cafodd RESA 2008 ei phasio.

(2) Mae adran 10 o Fesur Gwastraff (Cymru) 2010 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(3) Yn y teitl, yn lle "gollwng gwastraff ar safle tirlenwi" rhodder "thramgwyddau a grëir gan reoliadau o dan adrannau 9 a 9A".

(4) Yn is-adran (1), ar ôl "9(1)" mewnosoder "neu 9A(1)".

(5) Yn is-adran (2), yn lle "Caiff rheoliadau o dan adran 9(1)" rhodder "Caniateir arfer y pŵer i".

(6) Yn lle is-adran (3) rhodder—

> "(3) Ond nid yw adrannau 39(4) a 42(6) o RESA 2008 yn gymwys i'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud drwy reoliadau o dan adran 9(1) neu 9A(1) yn rhinwedd is-adran (2)."

(7) Yn is-adran (4), yn lle "i ddarpariaeth a wneir o dan reoliadau o dan is-adran (2), neu yn rhinwedd y rheoliadau hynny, fel y maent yn gymwys i ddarpariaeth a wneir" rhodder "pan fo rheoliadau o dan adran 9(1) neu 9A(1) yn gwneud darpariaeth yn rhinwedd is-adran (2) fel y maent yn gymwys pan wneir darpariaeth".

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Gorfodi yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 03 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(8) Yn is-adran (6), ar ôl "9(1)" mewnosoder "neu 9A(1) (fel y bo'n briodol)".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 68 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(b)**

**I2** A. 68 mewn grym ar 18.10.2023 gan O.S. 2023/1096, **ergl. 2(c)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Gorfodi yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 03 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 6(10)(d) substituted by S.I. 2024/706 reg. 22(a)
- s. 6(10)(d) substituted by S.I. 2024/706 reg. 22(b)